CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

## Nos Iau, 18 Gorffennaf 2019
## 7.00 yh

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

## Rhaglen

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

**2. Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2019 – ynghlwm.

Materion yn codi:

**2.1 Heriau Ariannol –** Ymateb Llywodraeth Cymru – copi ynghlwm er gwybodaeth.

**3. Polisi Gosod Tai Cyffredin (Cysylltiad Lleol)**

Cyflwyniad gan y Gwasanaeth Tai ar yr ymgynghoriad cyfredol sy'n dod i ben ar 5 Awst 2019:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau/Ymgynghoriadau-cyfredol/Holiadur-Tai-Cymdeithasol-–-Adolygur-Polisi-Gosod-Tai.aspx

# Town and Community Councils Liaison Forum Meeting

## Thursday, 18 July 2019
## 7.00 pm

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

## Agenda

**1. Welcome and Apologies**

**2. Minutes**

Confirmation of the minutes of the meeting held on 14 March 2019 – attached.

Matters arising:

**2.1 Financial Challenges -** Welsh Government's response – copy attached for information.

**3. Common Housing Allocations Policy (Local Connection)**

Presentation by the Housing Service on the current consultation which will close on 5 August 2019:

https://www.anglesey.gov.uk/en/Get-involved/Consultations/Current-consultations/Social-Housing-Questionnaire-–-Reviewing-the-Lettings-Policy.aspx

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**4. Arolwg Etholiadol – Ynys Môn – 2019**

Cyflwyniad gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

**5. Unrhyw fater arall**

**4. Electoral Review – Isle of Anglesey – 2019**

Presentation by the Local Democracy and Boundary Commission for Wales.

**5. Any other business**

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 14 Mawrth 2019
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh

**Yn bresennol:**

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng Gordon Warren | Amlwch |
| Cyng Brian Potter | Llanbadrig |
| Cyng Barbara Williams | Llanddona |
| Cyng Cerys Jones | Llanddyfnan |
| Cyng Hanna Huws | Llanfairpwll |
| Cyng Gareth Cemlyn Jones | Llanfairpwll |
| Cyng Einion Williams | Llanfihangel Ysgeifiog |
| Cyng Margaret Thomas | Llangefni |
| Cyng J E Lewis | Llangefni / Bodffordd |
| Cyng Ifor Wyn Humphreys | Llangristiolus |
| Cyng Bethan Jukes | Llannerchymedd / Medrwn Môn |
| Sydna Roberts (Clerc) | Llannerchymedd |
| Cyng A W Jones | Mechell |
| Cyng Angela Gliddon | Pentraeth |
| Eifion H Jones (Clerc) | Pentraeth |
| Cyng Ella Fisk | Porthaethwy |
| Cyng Eryl Mair Lewis | Porthaethwy |
| Cyng Keith Roberts | Trearddur |
| Cyng Bill Rowlands | Trearddur |
| Cyng Edna Jones | Trewalchmai |
| Margaret Price (Clerc) | Trewalchmai |
| Cyng Gordon Browne | Y Fali |
| Cyng Iwan Jones | Y Fali |
| Cyng Adam Owen | Y Fali |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Cyng Llinos Medi | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Cyng Ieuan Williams | Dirprwy Arweinydd y Cyngor |
| Annwen Morgan | Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau |
| Fôn Roberts | Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Hefyd yn bresennol**:

| | |
|---|---|
| Lis Perkins | Partneriaeth Masnach Deg Ynys Môn |
| Anna Jane Evans | Cymorth Cristnogol Cymru / Partneriaeth Masnach Deg Ynys Môn |
| Greg Owens | Is-Gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| Saz Willey | Aelod o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| Arolygydd Llinos Davies | Heddlu Gogledd Cymru |

**1. Ymddiheuriadau**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Cyngor Cymuned Bodedern
Cyngor Tref Caergybi
Cyng Eurfryn Davies - Cyngor Cymuned Llandegfan
Cyng Meirion Jones – Cyngor Sir Ynys Môn

**2. Cofnodion**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018 fel rhai cywir.

Materion yn codi:

**2.1 Toiledau Cyhoeddus – Y Dreth Fusnes**

Gofynnodd y Cyng J E Lewis am ddiweddariad cyffredinol o ran yr uchod.

Nodwyd bod y Cyngor ar hyn o bryd yn ymgynghori ar strategaeth doiledau lleol drafft, yn unol â'i ddyletswydd o dan ddeddfwriaeth newydd, ac **fe ddywedodd yr Arweinydd y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r fforwm hwn maes o law**.

**2.1 Heriau Ariannol**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, ymateb Llywodraeth Cymru i wahoddiad a roddwyd gan yr Arweinydd, ar ran y Fforwm, i Weinidogion Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfod o'r Fforwm i drafod yr heriau ariannol sy'n wynebu'r ynys. Nodwyd nad oedd Julie James AC, y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol, yn gallu derbyn y gwahoddiad oherwydd ymrwymiadau eraill.

**Gofynnwyd i'r Arweinydd ysgrifennu llythyr pellach i Lywodraeth Cymru, i gyfleu siom cynrychiolwyr y cynghorau tref a chymuned bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y gwahoddiad a gofyn iddynt ail-ystyried y mater.**

## 3. Partneriaeth Masnach Deg Ynys Môn

Cafwyd cyflwyniad gan Lis Perkins ac Anna Jane Evans ar ran Partneriaeth Masnach Deg Ynys Môn. Cafwyd amlinelliad o waith y Bartneriaeth - sy'n cael ei wneud yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr - gan gynnwys:

- Stondin yn gwerthu cynnyrch Masnach Deg yn swyddfeydd y Cyngor yn ystod Pythefnos Masnach Deg (ar 6 Mawrth 2019)
- Stondin yn Sioe Môn
- Cynnal trafodaethau gyda ffermwyr lleol
- Gweithio i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion

Nodwyd bod y Bartneriaeth yn chwilio am fwy o gyfleoedd i weithio gyda sefydliadau ar yr ynys. Fe rannwyd pecynnau a oedd yn cynnwys samplau o gynnyrch Masnach Deg, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer y Bartneriaeth.

Cymru oedd gwlad Masnach Deg cyntaf y byd. Mae gan y Cyngor Sir statws Masnach Deg ers deng mlynedd bellach ac mae Llangefni a Phorthaethwy hefyd yn drefi Masnach Deg. Pwysleisiwyd bod angen parhau i atgoffa pobl am bwysigrwydd Masnach Deg ac annog mwy o drefi a phentrefi i ennill statws Masnach Deg.

Anogwyd y cynghorau tref a chymuned i gadw Masnach Deg ar flaen eu meddyliau ymhob agwedd o'u gwaith a chymryd pob cyfle i hybu Masnach Deg er mwyn codi ymwybyddiaeth am dlodi a cheisio gwneud y byd yn fwy teg.

## 4. Penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned

Cafwyd cyflwyniad gan Greg Owens (Is-Gadeirydd) a Saz Willey, sy'n aelodau o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ar benderfyniadau'r Panel sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Yn ogystal â'r cyflwyniad, fe ddosbarthwyd taflen yn rhestru'r penderfyniadau perthnasol. Roedd y daflen hefyd yn egluro pa benderfyniadau oedd yn orfodol a pha rai oedd yn ddewisol ac felly angen penderfyniad gan y cynghorau unigol. Nodwyd mai penderfyniad 49 oedd yr unig benderfyniad newydd ac y dylai'r gweddill fod yn cael eu gweithredu eisoes.

Cyfeiriwyd yn benodol at benderfyniad 46 – ad-dalu costau ar gyfer gofal. Pwrpas y penderfyniad yma yw galluogi unrhyw un y byddai ei g/chyfrifoldebau fel gofalwr yn cyfyngu ar ei (g)allu i gyfranogi fel aelod o awdurdod i gyflawni ei rôl, neu roi cymorth gofal i aelod er mwyn galluogi'r aelod i gyflawni ei rôl. Nodwyd bod y nifer sy'n hawlio'r ad-daliad yma'n isel a gofynnodd aelodau'r Panel i'r cynghorau roi gwybod iddynt am unrhyw rwystrau i hawlio'r ad-daliad er mwyn i'r Panel gael ystyried sut i'w datrys.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i hyrwyddo amrywiaeth, gan nodi fod proffil cynghorwyr ar hyn o bryd yn gul.  Y gobaith oedd bod y taliadau a gyflwynwyd yn mynd i annog pobl i gymryd rhan na fyddai'n gallu gwneud hynny fel arall.

Awgrymodd y Cyng Gordon Warren (Amlwch) y dylid newid penderfyniad 40 i ddweud "…taliad o **hyd at** £150".  Ymatebodd Greg Owens y byddai'r Panel yn ystyried hyn.  Fodd bynnag, nod y Panel wrth bennu swm penodol yn hytrach na disgwyl i'r cynghorau unigol wneud penderfyniad oedd ceisio osgoi sefyllfeydd lle mae pwysau ar unigolion i ddewis taliadau is.

Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch cyflogau clercod cynghorau cymuned a materion trethiant, cafwyd cadarnhad nad yw pwerau statudol y Panel yn ymestyn i'r meysydd hyn ac y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at Un Llais Cymru.

Annogwyd y cynghorau i gyflwyno sylwadau ar benderfyniadau'r Panel, gan nodi y byddai'r ymgynghoriad ar adroddiad drafft 2020/21 yn digwydd yn yr hydref.  Fe'u hatgoffwyd hefyd bod angen cyhoeddi, ac anfon at y Panel, Ddatganiad o Daliadau Blynyddol erbyn 30 Medi pob blwyddyn (gweler yr Adroddiad Blynyddol, rhan 13.39 ac Atodiad 4):

https://beta.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2019-i-2020

**5. Heddlu Gogledd Cymru – Codi Ymwybyddiaeth am 'Linellau Sirol'**

Cafwyd cyflwyniad gan yr Arolygydd Llinos Davies, Heddlu Gogledd Cymru, ar 'Linellau Sirol'.

Mae 'Llinellau Sirol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau o droseddwyr sydd ynghlwm ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd o fewn y DU.  Maent yn defnyddio llinellau ffôn symudol ymroddedig neu ffurf arall o "linell werthu".  Maent yn debygol o ddefnyddio plant ac oedolion bregus i symud a storio'r cyffuriau a'r arian. Yn aml, ddefnyddir gorfodaeth, bygythiadau, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

Fe gyfeiriwyd hefyd at yr arfer lle mae gwerthwyr cyffuriau yn meddiannu eiddo unigolyn bregus a'i ddefnyddio fel lle i redeg eu busnes ('cogio' neu 'cuckooing').  Mae dioddefwyr yn aml ag ofn mynd at yr Heddlu ac yn poeni y byddant ynghlwm â'r drosedd.

O ran beth i'w chwilio amdano:

- Mae fel arfer yn digwydd mewn eiddo aml-feddiannaeth neu dai cymdeithasol.
- Gall fod cynnydd yn y nifer o fynd a dod, gan gynnwys pobl nad ydych wedi'u gweld o'r blaen.
- Efallai bydd cerbydau newydd tu allan i'r eiddo.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

- Cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ac o amgylch yr eiddo.
- Pobl anhysbys gyda goriadau i'r eiddo

Pwysleisiwyd y dylid rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw achosion, gyda chyn gymaint â phosibl o fanylion. Fe fyddai rhifau cofrestru ceir yn arbennig o ddefnyddiol.

Gellir cysylltu gyda'r Heddlu trwy ffonio 101, neu drwy wefan yr Heddlu. Nodwyd bod manylion cyswllt swyddogion yr Heddlu'n lleol hefyd ar gael ar eu gwefan.

Dywedodd Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Cyngor Sir, bod ei wasanaeth yn gweithio'n gyson gyda'r Heddlu, fel rhan o'i ddyletswydd Diogelu statudol, ac eglurodd bod ei wasanaeth yn delio fel mater o drefn gyda phroblemau sy'n gysylltiedig â Llinellau Sirol. Pwysleisiodd y dylid cysylltu gyda'r Heddlu i roi gwybod am sefyllfeydd argyfyngus ond, os oedd unrhyw un eisiau rhannu amheuon a chael cyngor, bod croeso hefyd iddynt gysylltu gyda Theulu Môn yn y Cyngor Sir.

Manylion cyswllt Teulu Môn:
[https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Plant-a-theuluoedd/Teulu-Môn-cefnogi-plant-a-theuluoedd/Teulu-Môn.aspx](https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Plant-a-theuluoedd/Teulu-Môn-cefnogi-plant-a-theuluoedd/Teulu-Môn.aspx)

Dywedodd y Cyng A W Jones (Mechell) bod yr Heddlu'n colli cyfle i godi ymwybyddiaeth o fewn cymunedau trwy beidio mynychu cyfarfodydd misol y cynghorau cymuned. Ymatebodd yr Arolygydd Davies mai dyna fyddai'n gweithio orau'n ddelfrydol, ond nid oedd modd iddi ymrwymo i hyn gan fod niferoedd swyddogion yr Heddlu wedi gostwng yn sylweddol. Cyfeiriodd y Cyng Gordon Warren (Amlwch) at ddiffyg ymateb gan yr Heddlu i geisiadau dros y ffôn am gymorth ac eglurodd yr Arolygydd Davies bod galwadau'n cael eu hasesu a'u categoreiddio'n ganolog ac felly tu allan i'w rheolaeth. Rhoddodd addewid y byddai'n bwydo'r sylwadau yn ôl i'r Heddlu.

## 6. Adolygu Gorsafoedd Pleidleisio

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r gorsafoedd pleidleisio ar yr ynys erbyn Ionawr 2020 ac eglurodd mai'r bwriad oedd cychwyn ymgynghoriad am ddau fis, i gychwyn ym mis Ebrill. Fodd bynnag, nid oedd modd cadarnhau'r amserlen hyd nes bydd y sefyllfa'n fwy eglur o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd - hynny yw bydd rhaid gohirio'r adolygiad os cynhelir Etholiadau Ewropeaidd ym mis Mai.

## 7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar nos Iau, 18 Gorffennaf 2019.

Cytunwyd y dylid edrych ar y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd y Fforwm mewn gwahanol leoliadau ar draws yr ynys.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 8. Unrhyw fater arall

### 8.1 Cyngor Cymuned y Fali – anfoneb

Dywedodd y Cyng Gordon Browne bod Cyngor Cymuned y Fali'n talu ffi blynyddol i'r Cyngor Sir am faes parcio yn y pentref ac eglurodd bod y Cyngor Cymuned yn disgwyl ers peth amser am anfoneb gan y Cyngor Sir i'w galluogi i wneud y taliad diweddaraf. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y byddai'n edrych i mewn i'r mater ar fyrder.

### 8.2 Cyfleusterau Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol

Mynegodd y Cyng Hanna Huws (Llanfairpwll) bryder o ran yr ymgynghoriad cyfredol ynghylch canfod lleoliadau ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol a gofynnodd i'r Cyngor wrthwynebu lleoli cyfleusterau ar yr ynys. Eglurodd yr Arweinydd bod y Cyngor Sir, mewn ymateb i ymholiad gan y wasg, eisoes wedi datgan nad yw'n ystyried gwneud cais gwirfoddol i leoli cyfleuster o'r fath o fewn y sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 yh.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC-JJ-05677-19

Cyng Llinos Medi
Arweinydd,
Cadeirydd Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn

llinosmedihuws@ynysmon.gov.uk

1 Mai 2019

Annwyl Llinos,

Diolch am eich llythyr pellach ar 6 Rhagfyr yn fy ngwahodd i ddod i gyfarfod o'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned. Yn anffodus, ni allaf dderbyn eich gwahoddiad oherwydd ymrwymiadau sydd eisoes yn fy nyddiadur.

Rwy'n deall yr heriau sylweddol sy'n wynebu llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaethom drafod yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer Ynys Môn yn ein cyfarfod diweddar, a byddaf hefyd yn trafod yr heriau hyn yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol yng nghyfarfodydd Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru.

Rwy'n falch o weld bod eich awdurdod a'r cynghorau tref a chymuned yn dod ynghyd drwy'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'n bwysig i lywodraeth leol gydweithio wrth wneud penderfyniadau ar eu cyllidebau a darpariaeth gwasanaethau lleol. Dylai awdurdodau lleol weithio yn agos gyda'r cynghorau tref a chymuned yn eu hardal fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, ac annog trafodaeth onest ac agored i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithiol i'r ddau sector o fewn llywodraeth leol gydweithio er lles eu cymunedau.

Yn gywir,

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.